Darganfod
Dadlau
Dewis

—

Discover
Debate
Decide

# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Ymchwiliad i'r ffordd y mae'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn gweithio

## Fersiwn i bobl ifanc



## Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

01

## Ymchwiliad i'r ffordd y mae'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn gweithio

Yn 2009 gwnaeth Llywodraeth Cymru ddeddf newydd a elwir yn Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Yr hyn y mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ei wneud yn rhannol yw edrych a yw Llywodraeth Cymru'n gwneud ei gwaith yn iawn. Roedd y Pwyllgor am wybod a yw'r ddeddf newydd hon yn gweithio fel y dylai.

Yr hyn yr oedd y ddeddf newydd yn geisio'i wneud yn bennaf oedd rhoi hawliau i ddisgyblion Cymru (14-19 oed) gael mwy o ddewis o gyrsiau y gallent eu dilyn – yn gyrsiau academaidd ac ymarferol. Roedd y ddeddf newydd hefyd yn dweud y dylai disgyblion gael cymorth, cefnogaeth a chyngor gyrfaoedd gan berson fel athro, cynghorydd gyrfaoedd neu anogwr dysgu i'w helpu i benderfynu pa gyrsiau i'w dilyn pan fyddant yn 14-19 oed.

Gofynnwyd i bobl ifanc Cymru am eu barn ar y ddeddf newydd.

Cymerodd pobl ifanc 14-19 oed ran yn yr ymchwiliad hwn a llenwyd 790 o holiaduron. Daeth pedwar o bobl ifanc i siarad yn uniongyrchol ag Aelodau'r Cynulliad yn y Senedd.



02

## Cynllun ysgrifenedig

Roedd y ddeddf newydd yn dweud bod gan bobl ifanc yr hawl i gael cynllun ysgrifenedig neu gynllun ar-lein a ddylai fodloni anghenion pob disgybl a rhestru'r cyrsiau y byddent yn eu dilyn. Byddai'r cynllun yn cael ei alw'n 'Gynllun Llwybr Dysgu'.

Gofynnwyd i bobl ifanc a oedd ganddynt gynllun ysgrifenedig neu gynllun ar-lein ar gyfer y cyrsiau yr oeddent am eu dilyn.

Dim ond hanner y bobl ifanc i ni siarad â hwy oedd â chynllun.

Dywed y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cynlluniau ysgrifenedig neu'r cynlluniau ar-lein yn cael eu defnyddio yn yr un ffordd ym mhob ysgol. Os oes angen, dylai Llywodraeth Cymru gyflymu'r ffordd y caiff y cynlluniau hyn eu defnyddio.



## 03 Teithio

Roedd y ddeddf newydd yn golygu bod rhai pobl ifanc yn teithio i ysgol neu goleg gwahanol ar gyfer rhai o'u gwersi.

Gofynnwyd i bobl ifanc a oeddent yn teithio i ysgol neu goleg arall. Os oeddent yn teithio, gofynnwyd sut yr oedd hyn wedi effeithio arnynt.

Roedd mwy nag un o bob pedwar person ifanc yn teithio i ysgol neu goleg arall ar gyfer rhai o'u gwersi. Dywedodd llawer wrthym nad oeddent yn hoffi gorfod teithio.

Dywed y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru edrych eto ar faint y mae disgyblion yn gorfod teithio oherwydd y ddeddf newydd. Dylent edrych ar faterion fel yr amser y mae'n gymryd i deithio; a oes gan ddisgyblion nad ydynt yn dymuno teithio lai o ddewis o gyrsiau a pha effaith y mae teithio'n ei gael ar ddisgyblion iau.




## Cymorth a chefnogaeth wrth wneud dewisiadau

Roedd y ddeddf newydd yn dweud y dylai disgyblion 14-19 oed gael cymorth, cefnogaeth a chyngor gyrfaoedd gan berson fel athro, cynghorydd gyrfaoedd neu 'anogwr dysgu' i'w helpu i benderfynu pa gyrsiau i'w dilyn.

Gofynnwyd i bobl ifanc a oeddent yn cael cymorth a chefnogaeth gan unrhyw un yn eu hysgol wrth ddewis pa gyrsiau i'w dilyn.

Dywedodd bron i un o bob pum person ifanc nad oeddent yn cael y cymorth a'r gefnogaeth hon.

Dywed y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar frys ar ba gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i ddisgyblion ac a yw pob person ifanc yn cael yr un gefnogaeth.




## Cyrsiau yn Gymraeg

**Gofynnwyd i bobl ifanc a oedd yn dymuno dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg a oeddent wedi gallu gwneud hynny.**

**Dywedodd mwy nag un o bob pum person ifanc nad oeddent wedi gallu dilyn pob cwrs yr oeddent wedi dymuno'i ddilyn drwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Dywed y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y ffordd y mae'r ddeddf newydd yn effeithio ar ysgolion Cymru neu ysgolion lle dysgir rhai o'r gwersi drwy gyfrwng y Gymraeg.**



## Cael swydd

Gofynnwyd i bobl ifanc a oeddent yn credu y byddai'r cyrsiau y maent yn eu dilyn yn yr ysgol yn eu helpu i gael swydd.

Dywedodd mwy nag un o bob deg na fyddent yn eu helpu neu nad oeddent yn siwr.

Dywed y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar yr hyn y gall ei wneud yn gyflym i gael cyflogwyr i chwarae mwy o ran mewn penderfynu pa gyrsiau sydd ar gael i bobl ifanc. Dyali pobl sy'n penderfynu pa gyrsiau sy'n cael eu cynnig i bobl ifanc hefyd wybod mwy am ba fath o sgiliau y mae cyflogwyr yn dymuno'u cael gan bobl ifanc.





## Diolch i'r holl bobl ifanc a gymerodd ran o:

Aelwyd yr Ynys – Ynys Môn
Clwb Ieuenctid KPC – Pen-y-bont ar Ogwr
Clwb Ieuenctid Sandfields – Port Talbot
Coleg Cardydd a'r Fro
Coleg Castell-nedd Port Talbot
Coleg Glannau Dyfrdwy
Coleg Iâl
Coleg Llandrillo
Coleg Menai
Coleg Merthyr Tudful
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr
Coleg Powys, Y Drenewydd
Coleg Sir Gâr
Coleg Ystrad Mynach
Cymunedau yn Gyntaf Tregaron – Pontrhydygroes
Grŵp Gweithredu Ieuenctid y Rhyl
Llamau
Urdd
Ysgol Aberaeron
Ysgol Aberdaugleddau
Ysgol Brynrefail
Ysgol y Creuddyn
Ysgol Dyffryn Ogwen
Ysgol Glan Clwyd
Ysgol Gyfun Bro Morgannwg
Ysgol Gyfun Tregwyr
Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi
Ysgol Gyfun Llangefni
Ysgol John Beddoes
Ysgol Sant Cenydd – Caerffili
Ysgol Sant Cyres – Penarth
Ysgol Syr Hugh Owen
Ysgol Tryfan
Ysgol Uwchradd y Fflint
Ysgol Uwchradd Llandrindod
Ysgol Uwchradd y Rhyl
Y Coleg, Rhymni

Gofynnodd yr Aelodau Cynulliad sydd ar y Pwyllgor i lawer o bobl eraill fel cynghorwyr ac athrawon am eu barn ar y ddeddf newydd. Ar sail hyn, mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu rhestr o bethau eraill y maent yn ei ddweud y dylai Llywodraeth Cymru eu gwneud. Mae'r rhestr hon yn yr adroddiad llawn a anfonwyd at eich ysgol neu grŵp ieuenctid.

**Cysylltwch â ni**

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

PwyllgorPPL@cymru.gov.uk



Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**